# Pecyn Cyhoeddus

Rhybudd o Benderfyniadau **Cyfarfod y CABINET** a gynhaliwyd yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell ar **Ddydd Mawrth, 7 Mehefin 2022**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5.00pm Dydd Iau, 9 Mehefin 2022. Y dyddiad olaf i dderbyn cais i alw unrhyw benderfyniad i mewn yw 5.00pm Dydd Iau, 16 Mehefin 2022 drwy ei anfon at Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) Dydd Gwener, 17 Mehefin 2022.

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Bryan Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Catrin M S. Davies, Clive Davies, Gareth Davies, Keith Henson, Wyn Thomas, Matthew Vaux ac Alun Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Elizabeth Evans, Rhodri Evans, Maldwyn Lewis a Gareth Lloyd.

(10.00am - 10.35am)

**1 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd James Starbuck, Cyfarwyddwr Corfforaethol am nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**2 Materion Personol**

**i** Estynnwyd cydymdeimlad â theulu'r Cynghorydd Hag Harris a fu farw'n ddiweddar. Talwyd teyrngedau i'r Cynghorydd Hag Harris am ei gyfraniad helaeth i wleidyddiaeth yng Ngheredigion. Estynnwyd cydymdeimlad diffuant â'i bartner a'i deulu.
Cynhaliwyd munud o dawelwch er cof amdano.

**ii** Llongyfarchwyd yr Athro Robert Glyn Hewinson CBE o Aberystwyth a gafodd ei anrhydeddu am ei wasanaethau i Iechyd a Lles Anifeiliaid yn Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines.

**iii** Llongyfarchwyd Owen Evans CBE, cyn Brif Weithredwr S4C, sydd bellach yn Brif Arolygydd Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, a gafodd ei anrhydeddu yn Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines.

**iv** Llongyfarchwyd Brynmor Williams MBE, yn wreiddiol o Geredigion, a gafodd ei anrhydeddu yn Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines.

**v** Llongyfarchwyd Pam Kelly, cyn Ddirprwy Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys, sydd bellach yn Brif Gwnstabl gyda Heddlu Gwent, a enillodd Fedal Heddlu'r Frenhines.

**vi** Llongyfarchwyd CFfI Felinfach ar ennill rali'r sir, CFfI Penparc a ddaeth yn ail, ac CFfI Llanwenog ar gynnal digwyddiad llwyddiannus. Dymunwyd y gorau i'r holl aelodau a fydd yn cystadlu yn Sioe Frenhinol Cymru.

**vii** Llongyfarchwyd plant, pobl ifanc ac athrawon Ceredigion ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a gynhaliwyd yn sir Ddinbych yn ddiweddar.

**viii** Llongyfarchwyd Helen Medi Williams a Lona Phillips, sylfaenwyr ac arweinwyr Adran Aberystwyth, a enillodd Wobr Goffa John a Ceridwen Hughes yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

**ix** Llongyfarchwyd Twm Ebbsworth o Lanwnnen ar ennill y goron yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ac Elain Roberts o Geinewydd ar ddod yn drydydd yn yr un gystadleuaeth. Llongyfarchwyd Catrin Jones o Lanwnnen hefyd ar ennill Ysgoloriaeth yr Artist Ifanc.

**x** Dymunwyd yn dda i Drizzle Joe Thomas o Aberystwyth, a fu'n cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd o'r ysbyty ym Manceinion wrth dderbyn triniaeth.

**xi** Estynnwyd cydymdeimlad â theulu Mark Purslow, cyn-ddisgybl o Ysgol Gyfun Aberaeron, a fu farw'n ddiweddar.

**xii** Llongyfarchwyd Rhys Norrington-Davies o Dalybont a thîm pêl-droed cenedlaethol Cymru ar ennill lle yng Nghwpan y Byd FIFA 2022.

**3 Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

Datganodd y Cynghorydd Matthew Vaux fuddiant personol mewn perthynas ag eitem 8.

**4 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Cabinet ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny**

Cadarnhau bod cofnodion Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2022 yn gywir.

Materion yn codi: Nid oedd materion yn codi o'r cofnodion.

**5 Unrhyw ddeisebau a dderbyniwyd: 'Talu'r taliad costau byw'**

Nodwyd bod y ddeiseb uchod wedi dod i law ac y byddai'n cael ei thrin yn unol â'r canllawiau yn y Protocol Deisebau.

**6 Unrhyw benderfyniadau (os oes rhai) a alwyd i mewn gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**

Dim.

**7 Unrhyw adborth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd ddim ar yr agenda**

Dim.

**8 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu ynghylch y Polisi Cyfyngiadau Gwleidyddol ar Weithwyr Llywodraeth Leol gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**

PENDERFYNIAD:

i. Cymeradwyo'r Polisi diwygiedig ynghylch Cyfyngiadau Gwleidyddol ar Weithwyr Llywodraeth Leol (Atodiad 1).
ii. Nodi'r adborth o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol.

*Y rheswm dros y penderfyniad:*

Er mwyn monitro dyletswyddau deddfwriaethol y Cyngor o ran swyddi sydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol/ swyddi sy'n wleidyddol sensitif, gan gynnwys y gwaith o gadw Cofrestr y Cyngor.

**9 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion a Diwylliant ynghylch Polisi Derbyn Ysgolion 2023/2024**

PENDERFYNIAD:
Cadarnhau'r Polisi Derbyn Disgyblion 2023/2024.

*Y rheswm dros y penderfyniad:*
I gael polisi mewn lle ar gyfer 2023/2024.

**10 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion a Diwylliant ynghylch Tendr ar gyfer Gwaith Adnewyddu ac Ymestyn Ysgol Gynradd Aberteifi**

PENDERFYNIAD:
Cymeradwyaeth i benodi'r cynigydd llwyddiannus, er mwyn galluogi'r gwaith adnewyddu ac ymestyn yn Ysgol Gynradd Aberteifi i ddechrau yn ystod gwyliau'r haf.

*Y rheswm dros y penderfyniad:*
Cyflenwi prosiect Ysgol Gynradd Aberteifi, sydd wedi ei gynnwys o fewn Band B Cymunedau Dysgu Cynaliadwy 2 a chydymffurfio â rheolau caffael sydd wedi'u cynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

**11 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Cabinet**

Dim.

**Cadeirydd:** _____

**Dyddiad:** _____

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol